

Y Rhaglen Datblygu Organig: trefnir gan Ganolfan Organig Cymru yn cyflawni ar ran Cyswllt Ffermio



Cael y gorau o ffrwythau a llysiau organig: Manwerthu a chyflwyno cynnyrch ffres

Dyma'r drydedd ffeithlen mewn cyfres i helpu busnesau garddwriaethol i wella ansawdd eu cynnyrch. Mae'r lleill yn ymdrin â'r cnwd sy'n tyfu a rheoli ôl-gynhaeaf. Mae arddangosfa ffrwythau a llysiau doreithiog a lliwgar yn gwneud pleser yw siopa am fwyd, boed mewn marchnad, siop fferm, siop fach annibynnol neu mewn siop ffrwythau a llysiau. Rhaid i'r cynnyrch ar ddangos fod yn y cyflwr gorau, gael ei gyflwyno'n dda a chyrraedd adre gyda golwg ffres arno.

Dechrau gyda chynnyrch o ansawdd da

Gwnewch yn siŵr fod cynnyrch o ansawdd da gennyh yn y lle cyntaf:

- Os ydych yn derbyn cynnyrch gan gyflenwyr eraill, **gwiriwch y cofnodion tymheredd** a pheidiwch â llofnodi nodiadau cyflenwi oni bai'ch bod yn hapus gyda'i gyflwr. Byddai'n syniad da gwirio'i dymheredd ar ôl iddo gyrraedd
- Unwaith i chi ei dderbyn **symudwch y cynnyrch i storfa sydd wedi'i hoeri cyn gynted ag y bo modd**. Chwistrellwch ddŵr fel bo'n briodol gan orchuddio'r holl gnydau deiliog a bresych â bagiau plastig/tywelion tamp.
- Gwrthodwch gynnyrch nad yw'n ffres, neu sydd wedi'i raddio'n isel neu wedi'i bacio'n wael. Unwaith rydych yn perchnogi cynnyrch israddol, chi yn unig fydd yn dioddef unrhyw golledion.
- Dosbarthu dyddiol yw'r ffordd orau o sicrhau cyflenwad cyson o gynnyrch ffres.

Edrych yn dda

Prynir y rhan fwyaf o nwyddau bwyd yn fyrbwyll a'r ffordd maent yn edrych yw'r sbardun, felly mae'r olwg sydd ar yr hyn sydd gennyh i'w gynnig yn dylanwadu'n enfawr ar eich gwerthiant.

- **Y lefel brynu yw lefel y llygaid**. Peidiwch â gosod y cynnyrch yn is na 18" uwchben y ddaear neu dros 5'10"
- **Gadewch ddigon o amser i greu'ch arddangosfa**. Rhaid iddo fod yn ddigon cadarn i barhau drwy'r dydd ac mae'n anodd ei newid unwaith mae cwsmeriaid yn cyrraedd.
- **Defnyddiwch gynllun cyson, rhesymegol**. Er enghraifft, trefnwch gnydau mewn grwpiau teulu, gyda gwreiddiau yn y naill ben a saladau yn y llall.
- **Defnyddiwch liwiau cyferbyniol** i wahanu blociau mawr o wyrdd neu frown. Gallwch wneud hyn gyda'r cynnyrch ei hun, er enghraifft drwy osod cennin rhwng nionod a moron neu gyda deunyddiau'r arddangosfa, er enghraifft, drwy roi leinin porffor o dan y ciwcymbrau.
- **Defnyddiwch flychau a basgedi arddangos unffurf a glân**. Os ydych yn gallu, dylech gadw'r cynnyrch yn eu blwch gwreiddiol i arbed amser, osgoi cleisio a dangos logo/hunaniaeth y tyfwr.
- **Defnyddiwch gynhwysydd sy'n briodol i faint a throsiant y cnwd**. Er enghraifft, mae sinsir yn fach ac mae'r trosiant yn isel felly dylai fynd mewn basgedi bach. Mae'r gwrthwyneb yn wir ar gyfer nionod a thatws.
- Unwaith rydych wedi gorffen, sefwich yn ôl gan edrych arni drwy **lygad y cwsmer** o nifer o wahanol onglau.
- Gesodwch arwyddion. Ymlaciwch a mwynhawch paned! →

Canolfan Organig Cymru · Ffeithlen Rhif K6 - Mai 2011

Cyhoeddwyd gan Canolfan Organig Cymru, IBERS, Prifysgol Aberystwyth, Ceredigion SA23 3EB Ffôn: 01970 622248.

Ni all Canolfan Organig Cymru a'i phartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail cynnwys ei ffeithleni na chyhoeddiadau eraill.



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar yfer Datblygu
Gwledig Ewrop yn Buddsoddi
mewn Ardalau Gwledig
The European Agricultural Fund for
Rural Development: Europe Investing in
Rural Areas



Canolfan Organig Cymru
Organic Centre Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dal i edrych yn dda

Ar ôl gosod arddangosfa â golwg ffres a lliwgar arni, mae angen i chi ei chadw fel hynny drwy gydol y dydd. Sylw obsesiynol i leithder a thymheredd a pheidio â goddef cynnyrch is-safonol yw allwedd pob llwyddiant:

- Defnyddiwch **inswleiddio neu fleinds ffenestri** i gadw'r siop/adeilad yn weddol oer yn hytrach nag unedau arddangos wedi'u hoeri. Gallai'r rhain gynhesu'r awyr o'u cwmpas.
- **Monitwch y stondin yn rheolaidd** ac yn systematig gan ei chadw wedi'i stocio'n dda. Tarwch gydbwysedd rhwng cael cyflenwad mawr i greu argraff o ddigonedd, a sicrhau trosiant digon uchel i sicrhau bod popeth sydd ar ddangos yn edrych yn ffres.
- **Cylchdrowch wrth ailgyflenwi**, er enghraifft, gosodwch gyflenwadau newydd o dan yr hyn sy'n weddill o'r cyflenwad blaenorol.
- **Defnyddiwch eich chwistrellwr dŵr yn hael ac helaeth**, yn enwedig ar ddyddiau cynnes gan gadw chwistrellwr sbâr yn yr oergell.
- **Tynnwch neu docio unrhyw beth sydd ddim yn y cyflwr gorau**, megis y gawod goch ar gennin, brocoli gyda blodigion agored, dail melyn ar fresych ac yn y blaen. Tynnwch unrhyw sborion o'r blychau; ni fydd moron sydd wedi'u torri'n gwerthu!
- **Tynnwch unrhyw eitemau llai na'r arfer** fel nionod o dan 40mm a'u rhoi mewn blwch ar gyfer cynnyrch sydd am ddim.

Prisio a labelu clir

- Rhaid i brisiau gynnig **gwerth am arian**. Gwiriwch brisiau'r farchnad ar-lein ar mysupermarket.com neu ymwelwch â'ch archfarchnad leol.
- **Mae premiymau organig** yn amrywio ond yn aml, mae modd cyrraedd 15-20% uwchben prisiau confensiynol.
- **Byddwch yn hyblyg**. Amrywiwch y prisiau yn uwch ac yn is na'r ffiniau targed, yn dibynnu ar y trosiant. Mae cwsmeriaid yn gwirio prisiau rhai mathau o gynnyrch (megis cnydau'r tymor newydd) yn fwy nag eraill, felly byddwch yn gystadleuol wrth brisio'r rhain i sicrhau trosiant cyflym a thrwybwn sylweddol. Mae angen monitro prisiau cynnyrch byrhoedlog sydd ag oes silff fer i sicrhau eu bod yn cael eu gwerthu'n gyflym.
- Labelwch bob cyfres o nwyddau yn y **Gymraeg ac yn y Saesneg**, gan ddangos **enw'r tyfwr** a'r sir ar gyfer y DU a **gwlad y tarddiad** ar gyfer unrhyw gynnyrch sy'n dod o'r tu allan i'r DU.
- Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i nwyddau a bwysir ddangos **pris y cilogram**. Fodd bynnag, mae llawer o bobl yn dal i feddwl yn nhermau pwysau (lb), felly dangoswch y ddau.
- **Cynigiwch unrhyw ostyngiadau mewn da bryd**. Os nad yw cwsmeriaid yn ymateb o fewn 30 munud, daliwch ati i ostwng y pris nes i'r cynnyrch fynd. Popeth â'i bris!
- **Byddwch yn glir** ynglŷn â'r hyn y gellir ei werthu am bris gostyngol, beth sy'n gallu mynd yn y blwch am ddim a beth sy'n mynd yn y bin compost.

Pobl serchus a hapus

Mae'r ffordd rydych chi a'ch staff yn eich cyflwyno'ch hunain yr un mor bwysig â'r olwg sydd ar eich cynnyrch

- Mae **ffedogau neu ddillad safonol/iwnifformau glân** yn creu naws broffesiynol
- Dylech bob amser edrych yn **siriol a bod yn hawdd mynd atoch** (ddim y peth hawsaf bob amser, rydyn ni'n gwybod!)
- Sicrhewch **bod eich staff wedi'u hyfforddi'n dda, yn wybodus ac yn frwdfrydig**. Mae gwerthwyr cadarnhaol, dymunol yn gaffaeliad mawr i unrhyw fusnes. Mae'r gwaith y maent yn ei gyflawni yn anodd, yn gorfforol ac yn feddyliol, felly gwobrwych nhw yn unol â hynny. **Mae talu cyflogau ychydig yn uwch bron bob amser yn talu ar ei ganfed**, drwy arwain at werthiant uwch.

Ar ddiwedd y dydd.....

- **Glanhewch** bopeth yn barod i ddechrau'n ffres drannoeth, gan adael **nodiau ac arwyddion newydd fel bo angen**.
- **Adolygwch y cynnyrch** sydd i fod i gyrraedd y diwrnod canlynol a nodwch pa werthiant y dylid ei gynyddu neu ei ddogni'n ofalus.
- **Cofnodwch wastraff** – mae llai na 0.5% yn ddigon hawdd ei gyrraedd.

Darllen Pellach

"The New Organic Grower", y benod ar farchnata. Elliot Coleman. Chelsea Green Publishing 1983

www.unicorn-grocery.co.uk/grow-a-grocery/Veg Storage and Presentation.pdf

<http://nwrec.hort.oregonstate.edu/vegindex.html>

www.glebelandsmarketgarden.co.uk/vegselling.html

Cydnabyddiaethau

Mae Canolfan Organig Cymru'n cydnabod cyfraniad **Adam York, Gardd Farchnad Glebelands** i'r ffeithlen hon.